

CANLLAWIAU CAFFAEL I GYFLENWYR CYNGOR CAERDYDD

Mesur Rheolaeth Ariannol Dim GP Dim Tâl (Dim Gorchymyn Prynu Dim Taliad) – Cwestiynau Cyffredin

Newid yn weithredol o 18 Awst 2012

Mae Cyngor Caerdydd yn ymrwymedig i wella'r ffordd y mae'n prynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith; rydym wedi nodi sut rydym yn bwriadu gwneud hyn yn ein [Strategaeth Comisiynu a Chaffael \(2011-2015\)](#). Dros y 3 blynedd nesaf bydd newidiadau mawr yn y ffordd rydym yn rheoli mwy na £300 miliwn sy'n cael ei wario'n flynyddol ar gyflenwyr a chontractwyr allanol. Un o'r newidiadau allweddol a fydd yn dod i rym ar **18 Awst 2012** fydd mesur rheolaeth ariannol Dim GP Dim Tâl (Dim Gorchymyn Prynu Dim Taliad).

C1: Beth yw Dim GP Dim Tâl?

Dim GP Dim Tâl yw un o fesurau rheolaeth ariannol allweddol Cyngor Caerdydd, i sicrhau y caiff taliadau ond eu gwneud i gyflenwyr a chontractwyr pan fo'r anfoneb a geir (ar bapur neu'n electronig) yn cynnwys gorchymyn prynu (GP) swyddogol dilys (oni cheir eithriad y cytunwyd arno ymlaen llaw – gweler C8 isod am restr lawn).

C2: Pam fod angen mesur rheolaeth ariannol Dim GP Dim Tâl?

Mae Dim GP Dim Tâl yn sicrhau bod y Cyngor ond yn talu am nwyddau, gwasanaethau a gwaith sydd wedi'u harchebu a'u hawdurdodi'n briodol. Mae hefyd yn sicrhau y gellir prosesu'r anfonebau y mae'r Tîm Cyfrifon Taladwy yn eu derbyn yn effeithlon i sicrhau cyn lleied o oedi â phosibl i gyflenwyr a chontractwyr. **Ni thelir** anfonebau a dderbynnir gan y Tîm Cyfrifon Taladwy os nad ydynt yn cynnwys rhif GP dilys, a chânt eu hanfon yn ôl at y cyflenwr.

C3: Pryd fydd Dim GP Dim Tâl yn dod i rym?

Bydd Dim GP Dim Tâl yn berthnasol i bob archeb am nwyddau, gwasanaethau neu waith o **18 Awst 2012**.

C4: Sut mae Dim GP Dim Tâl yn gweithio?

Mae Dim GP Dim Tâl yn ei gwneud yn ofynnol i bob anfoneb sy'n cael ei chyflwyno gan gyflenwyr a chontractwyr gynnwys rhif GP swyddogol. Ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol, bydd y rhif GP yn:

- cael ei gynhyrchu gan system prynu a thalu gorfforaethol y Cyngor (SAP),
- cael ei roi i'r cyflenwr neu'r contractwr CYN ymrwymo i wario arian y Cyngor.

O dan amgylchiadau eithriadol gellir darparu rhif GP ar Frys gyda rhif GP a gynhyrchir gan SAP o fewn tri diwrnod gwaith. Ceir eithriadau i Dim GP Dim Tâl – rhestrir y rhain yn C7 isod.

Unwaith y bydd y mesur rheolaeth ariannol hwn ar waith, dim ond anfonebau sy'n cynnwys rhif GP dilys y bydd Cyngor Caerdydd yn eu derbyn. **Mae'n bwysig i gyflenwyr gofio eu bod mewn perygl o beidio â chael eu talu oni fydd eu hanfonebau'n cynnwys rhif GP dilys, neu caiff y taliad ei ohirio o leiaf.**

Ceir eithriadau i'r rheol gyffredinol hon, a rhestrir y rhain yn C7.

C5: Pryd y dylwn i sicrhau bod gennyf Rif Gorchymyn Prynu dilys?

O 18 Awst 2012 **ni ddylai** cyflenwr, o dan unrhyw amgylchiadau, dderbyn unrhyw archeb ar lafar nac yn ysgrifenedig gan un o swyddogion y Cyngor **oni bai** bod rhif GP dilys yn cael ei ddarparu, neu fod un o'r eithriadau a nodir yn C8 yn berthnasol, neu os yw'r archeb yn un brys. Unwaith y bydd y mesur rheolaeth ariannol Dim GP Dim Tâl ar waith, **ni phrosesir unrhyw anfoneb nad**

yw'n cynnwys rhif GP dilys a chaiff ei hanfon yn ôl ar y cyflenwr oni bai bod un o'r eithriadau'n berthnasol (gweler C8).

C6: Beth yw dilyniant rhif GP system SAP Cyngor Caerdydd?

Bydd rhifau GP dilys o ran Gorchymynion Prynu o system SAP Cyngor Caerdydd yn y fformat '45nnnnnnnn' lle mae 'n' yn cynrychioli rhif, neu '30nnnnnnnn' pan fo'r archeb o ganlyniad i gytundeb ffurfiol rhwng y Cyngor a chyflenwr.

Fel y nodir yn C4 uchod, o dan amgylchiadau eithriadol gellir darparu rhif GP ar Frys gyda rhif GP a gynhrychir gan SAP o fewn tri diwrnod gwaith.

C7: Pa eithriadau sy'n berthnasol i fesur rheolaeth ariannol Dim GP Dim Tâl?

Nid oes angen GP o dan yr amgylchiadau canlynol. Mae'r rhestr hon yn cael ei hadolygu'n barhaus a chaiff unrhyw newidiadau pellach eu cyfleu i'n cyflenwyr dros e-bost a thrwy wefan caffael Cyngor Caerdydd. Ar hyn o bryd mae'r Rhestr Eithriadau yn cynnwys:

- Ffonau (llinell dir a ffôn symudol) – lle y bo'n bosibl, mae'r Cyngor yn gweithio gyda chyflenwyr i gyfuno biliau cyfleustodau er mwyn lleihau costau prosesu
- Cyfleustodau (h.y. Nwy, Trydan, Dŵr) – lle y bo'n bosibl, mae'r Cyngor yn gweithio gyda chyflenwyr i gyfuno biliau cyfleustodau er mwyn lleihau costau prosesu
- Gwasanaethau Post
- Darpariaethau Cyffredinol (Bwyd a Diod) – Arlwyyo Caerdydd yn unig
- Grantiau
- Rhenti
- Taliadau i, neu ar ran, Cyrff Cyhoeddus – mae hyn ond yn cyfeirio at daliadau nad ydynt ym ymwneud â chaffael Dylid llunio archeb ar gyfer unrhyw wariant sy'n ymwneud â chaffael
- Diddanwyr
- Tanysgrifiadau i Gylchgronau / Cymdeithasau
- Taliadau i Unigolion (Ad-daliadau Dosbarth Nos, Taliadau Maethu, Gwirfoddolwyr, Treuliau, Gwobrau ac ati)
- Taliadau gofal cymdeithasol – ni chaiff y rhain eu cynnwys yn Dim GP Dim Tâl
- Taliadau cerdyn prynu (Gweler C9)

C8: Sut mae Taliadau Cerdyn Prynu (Cerdyn P) yn gweithio?

Mae cardiau prynu yn dilyn yr un egwyddor â chardiau debyd personol, ond ar raddfa fwy. Maent yn galluogi aelodau penodol o staff i dalu am lawer o nwyddau gwerth isel gan ddefnyddio'r cerdyn. Nid oes angen gorchymyn prynu a chaiff y taliad ei gymryd o'r gyllideb. Mae taliadau cerdyn prynu yn lleihau'r gwaith gweinyddol sydd angen ei wneud i brosesu taliadau ar gyfer prynwyr a gwerthwyr, ac felly'n lleihau costau prosesu.

Mae taliadau cerdyn prynu yn system dalu fwy effeithlon sy'n sicrhau bod gwerthwyr yn cael eu talu am nwyddau'n effeithlon, fel arfer o fewn 2-3 diwrnod. Os ydych yn credu y gallai cardiau P fod yn addas ar gyfer eich busnes â Chyngor Caerdydd, anfonwch e-bost at procurement@caerdydd.gov.uk

C9: Dim ond Ysgolion rydw i yn eu cyflenwi. Yw hyn yn effeithio arna i?

Nid yw ysgolion wedi'u cynnwys yn y mesur rheolaeth ariannol Dim GP Dim Tâl. Ni fydd unrhyw newid i'r broses archebu na'r broses dalu ar gyfer anfonebau a dderbynnir ar gyfer ysgolion.

C10: Rydw i wedi cyflenwi nwyddau neu wasanaethau i Gyngor Caerdydd. Ble y dylwn i gyflwyno fy anfoneb?

O 18 Awst 2012 bydd y Cyngor yn cyflwyno newidiadau pellach gam wrth gam, ac yn sgîl y rhain bydd yn rhaid cyflwyno'r rhan fwyaf o anfonebau i Dîm Cyfrifon Taladwy canolog i'w prosesu a'u talu. Mae'r cam cyntaf yn cynnwys 100 prif gyflenwr y Cyngor (o ran nifer yr anfonebau a gynhyrchir) a fydd yn cyflwyno eu hanfonebau yn uniongyrchol i'r Tîm Cyfrifon Taladwy canolog. Bydd y Gorchymyn Prynu yn parhau i nodi ble y dylai cyflenwyr gyflwyno eu hanfonebau ac mae gwaith yn parhau gyda chyflenwyr cam 1 i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r newidiadau a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud.

Hyd nes yr hysbysir eich sefydliad fod angen iddo ddychwelyd anfonebau i'r Tîm Cyfrifon Taladwy canolog, parhewch i ddychwelyd pob anfoneb at y person a gododd yr archeb. Bydd y Gorchymyn Prynu yn cadarnhau i ble y dylid dychwelyd anfonebau.

C11: A gaf fy nhalu'n gyflymach os byddaf yn dyfynnu rhif GP?

Oni chytunir ar hynny ymlaen llaw, ac yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, bydd telerau talu safonol Cyngor Caerdydd yn parhau ar waith, sef 10 diwrnod o dderbyn anfoneb ddilys ar gyfer busnesau bach a chanolig (llai na 250 o weithwyr) a 30 diwrnod o dderbyn anfoneb ddilys ar gyfer unrhyw gyflenwyr eraill.

Ar ôl gweithredu mesur rheolaeth ariannol Dim GP Dim Tâl, ni chaiff anfonebau heb rif GP dilys eu talu a chânt eu hanfon yn ôl i'r cyflenwr, oni bai bod eithriad yn berthnasol (gweler C7). **O ganlyniad i hyn, caiff y taliad ei ohirio o leiaf.**

C12: Yn y gorffennol roedd anfonebau heb rif GP yn cael eu talu gan Gyngor Caerdydd. A fydd hyn dal yn digwydd?

Na. Unwaith y bydd y mesur rheolaeth ariannol Dim GP Dim Tâl ar waith, ni phrosesir unrhyw anfoneb nad yw'n cynnwys rhif GP dilys a chaiff ei hanfon yn ôl at y cyflenwr oni bai bod un o'r eithriadau'n berthnasol (gweler C8).

C13: Mae anfoneb wedi'i dychwelyd yn gofyn am rif GP dilys. Sut alla i gael gafael ar un o'r rhain?

Dylech gysylltu â'r aelod o staff yng Nghyngor Caerdydd a roddodd y cyfarwyddyd gwreiddiol i gyflenwi'r nwyddau, y gwasanaethau neu'r gwaith a gofyn iddo ddarparu rhif GP. Unwaith i chi gael un, ailgyflwynwch eich anfoneb gan sicrhau eich bod wedi cynnwys y rhif GP.

C14: Beth ddylwn i ei wneud nawr?

Gwnewch yn siŵr fod pob aelod o staff sy'n cael gorchmynion i gyflenwi nwyddau, gwasanaethau neu waith i Gyngor Caerdydd yn ymwybodol o **Dim GP Dim Tâl** ac yn mynnu cael rhif GP swyddogol.

C15: A gaf y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i Dim GP Dim Tâl yn y dyfodol?

Cewch – caiff rhagor o wybodaeth ei chyhoeddi i hysbysu pobl am Dim GP Dim Tâl. Bydd hyn yn cynnwys manylion am y gwaith o gyflwyno'r rhaglen ar gyfer anfon anfonebau yn uniongyrchol i'r Tîm Cyfrifon Taladwy.

C16: Beth y dylwn i ei wneud os nad ydw i'n gyflenwr ond wedi cael hysbysiad Dim GP Dim Tâl, ond ddim yn cyflenwi Cyngor Caerdydd?

Mae rhai unigolion sydd wedi cael taliadau/grantiau gan y Cyngor yn y gorffennol wedi cael eu cydnabod fel cyflenwyr yn ein system gyfrifyddu. Os ydych wedi cael eich hysbysu am fesur

rheolaeth ariannol Dim GP Dim Tâl ond ddim yn darparu nwyddau a gwasanaethau i Gyngor Caerdydd, anwybyddwch yr Hysbysiad hwn ac ymddiheurwn am unrhyw anghyfleustra.

C17: Ble alla i gael rhagor o wybodaeth am werthu nwyddau neu wasanaethau i Gyngor Caerdydd?

Ewch i'n gwefan yn www.caerdydd.gov.uk/caffael neu os oes gennych unrhyw gwestiynau penodol, anfonwch e-bost i procurement@caerdydd.gov.uk